Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) – arolwg pobl ifanc

Cefndir

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd gan bobl ifanc i'r arolwg a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg fel rhan o'i waith craffu cyfnod 1 graffu ar Fil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) Llywodraeth Cymru.

Oherwydd talgrynnu, efallai na fydd y canrannau bob amser yn dod i 100%. Cafwyd 177 o ymatebion i'r arolwg sy'n cynrychioli barn y rhai a ymatebodd, nid y cyhoedd yn gyffredinol.

Oedran y rhai a gwblhaodd yr arolwg

- O dan 12: 5.7%
- 12-15: 24.6%
- **16-18: 57.1%**
- 19-25: 12.6%

*Cafwyd 175 o ymatebion

Ydych chi'n meddwl bod anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc yn cael eu nodi'n ddigon cyflym ac yn ddigon da ar hyn o bryd?

- Ydw: 21.5%
- **Nac ydw: 61.0%**
- Ddim yn siŵr: 17.5%

*Cafwyd 177 o ymatebion

Ar ôl i blentyn neu berson ifanc gael ei nodi ag anghenion dysgu ychwanegol, pa mor dda yw'r cymorth sydd ar gael?

- Da iawn: 22.7%
- Da: 24.4%
- **Gweddol: 34.1%**
- Gwael: 14.2%
- Gwael iawn: 4.5%

*Cafwyd 176 o ymatebion

A ddylai pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol sydd yn y coleg, yn gwneud prentisiaethau neu hyfforddiant yn y gweithle, gael eu cynnwys yn y system newydd a chael cefnogaeth?

- **Dylent: 91.5%**
- Na ddylent: 1.1%
- Ddim yn siŵr: 7.3%

*Cafwyd 177 o ymatebion

Ydych chi'n meddwl bod pobl ifanc yn cael digon o gyfle i fynegi barn ynglŷn â sut mae eu hanghenion dysgu ychwanegol yn cael eu diwallu ar hyn o bryd?

- Ydw: 31.6%
- **Nac ydw: 45.8%**
- Ddim yn siŵr: 22.6%

*Cafwyd 177 o ymatebion

Ydych chi'n meddwl bod plant a phobl ifanc yn gwybod beth i'w wneud os ydynt yn anfodlon â'r cymorth y maent yn ei gael ar gyfer eu hanghenion dysgu ychwanegol?

- **Ydw: 42.4%**
- Nac ydw: 37.3%
- Ddim yn siŵr: 20.3%

*Cafwyd 177 o ymatebion

Gan bwy y dylai pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol bob amser allu cael gwybodaeth?

- **Ysgol: 78.3%**
- Coleg: 68.0%
- Awdurdod lleol: 54.9%
- Person annibynnol: 52.0%
- Meddyg teulu: 4.6%
- Teulu: 2.3%
- Arall: 2.9%

*Cafwyd 175 o ymatebion. Roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un opsiwn.

Dyma rai enghreifftiau o'r sylwadau:

Darpariaeth Gymraeg: “Dwi'n credu y dylai'r ieithwedd ynglŷn â darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg gael ei chryfhau.”

Cymorth cynnar: "Mae'n cymryd amser HIR i nodi bod gan rywun anghenion dysgu ychwanegol."

Cymorth cynnar: "Nid yw anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu nodi yn yr ysgol iau."

Atebolrwydd: "Rydych chi'n cael eich trosglwyddo o un asiantaeth i'r llall, ac erbyn i chi gael cymorth mae'n rhy hwyr."

Atebolrwydd: "Yn lle fy nghlywed i, beth am wrando arna’ i a ni."

Atebolrwydd: "Dylwn i gael mwy o lais yn yr hyn sy'n digwydd yn fy mywyd."

Atebolrwydd: "Dylai pobl ifanc ag anableddau dysgu ychwanegol fod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud a dylai fod modd iddynt ofyn am gymorth drwy athrawon a darlithwyr."

Trosglwyddo i fod yn oedolyn: "Dydw i ddim yn credu bod pobl yn gwrando arna' i ac yn gwybod am fy nghyflwr. Bydd angen cymorth arna' i o hyd pan fyddaf yn gadael yr ysgol."

Trosglwyddo i fod yn oedolyn: "Er mwyn cael swydd, mae angen help arna' i gan bobl sy'n deall fy ADY."

Trosglwyddo i fod yn oedolyn: "Mwy o weithleoedd a lleoliadau profiad gwaith sy'n addas i bobl ag ADY."

Adnoddau ac arbenigedd: "Dylai pawb wybod am ADY a dylai pob myfyriwr, eu rhieni a staff gael dysgu am hyn."

Adnoddau ac arbenigedd: "Dylai staff gael mwy o hyfforddiant i weithio gyda phobl ag anawsterau dysgu."

Adnoddau ac arbenigedd: "Rwy'n credu nad oes gan yr ysgol ddigon o hyfforddiant a/neu wybodaeth ynglŷn â materion iechyd meddwl."

Adnoddau ac arbenigedd: "Mae gan bawb sy'n cael cymorth neu'n meddwl eu bod angen cefnogaeth yr hawl i siarad a chael eu clywed am y cymorth sydd ei angen arnynt."

Adnoddau ac arbenigedd: "Mae gen i ADY a gofynnodd y seicolegydd addysg i'r ysgol fy rhoi i ar y gofrestr AAA. Mae cynllun gwaith ar fy nghynllun dysgu unigol, ond dydw i ddim yn gwybod beth yw fy nhargedau. Mae'r ysgol yn fy niflasu oherwydd bod fy ngwaith yn rhy hawdd. Rydw i eisiau cael fy herio. Roedd adroddiad y seicolegydd addysg yn dweud bod fy IQ yn uchel a bod angen i fi gael fy herio. Dyw'r ysgol na fy ffrindiau ddim yn deall sut rwy'n gweithio."

Adnoddau ac arbenigedd: "Pan oeddwn i yn y brif ffrwd, doedd neb yn gwrando arna' i, ond gan fy mod i bellach yn y grŵp EOTAS rwy'n teimlo bod pobl yn fy helpu i."

Adnoddau ac arbenigedd: "Dydw i ddim yn credu bod ysgolion yn gwneud digon ar gyfer plant ag anghenion arbennig ac mae angen iddynt wella yn hyn o beth."